



**WARM AND
SAFE HOMES**



Help gyda thalu biliau nwy a thrydan yn ystod yr argyfwng coronafeirws




Fersiwn DarllenHawdd

Am y daflen hon




Rydyn ni i gyd yn treulio mwy o amser adref i helpu stopio coronafeirws rhag lledu.



Yn ôl pob tebyg mae hynny'n golygu eich bod chi'n defnyddio mwy o nwy a thrydan na fel arfer ac efallai eich bod chi'n poeni am hynny.



Mae'r daflen yma yn dweud wrthyddych chi am y pethau y gallwch chi wneud i helpu gyda'ch biliau nwy a thrydan. Efallai y byddwch chi eisiau cael rhywun arall gyda chi pan fyddwch chi'n edrych ar y daflen yma.



Mae'n fersiwn darllen hawdd o daflen arall gan **Ynni Clyfar GB, yr ymgyrch dros Brydain Glyfrach a Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni**, yr elusen genedlaethol sy'n helpu pobl i aros yn gynnes yn eu cartrefi.

1. Cysylltu â'ch cyflenwr ynni



Mae'n bwysig iawn bod eich cyflenwyr nwy a thrydan yn gwybod os ydych yn agored i niwed fel y gallan nhw helpu chi.



Rydych chi'n **agored i niwed** os:

- ydych chi dros oedran pensiwn




- oes gennych anabledd



- ydych chi wedi cael cyflwr iechyd ers amser hir



- oes gennych blant o dan 5 mlwydd oed.



Bydd eich cyflenwr yn rhoi chi ar gofrestr (rhestr) o bobl sydd angen cymorth ychwanegol. Er enghraifft, os bydd toriad pŵer neu mae angen gwybodaeth darllen hawdd arnoch chi.




Os na allwch chi gysylltu â'ch cyflenwr gallwch roi cynnig ar gofrestru gyda'ch Gweithredwr Rhwydwaith Dosbarthu (DNO). Y DNO yw'r cwmni sy'n berchen ar ac yn gweithredu'r llinellau trydan yn eich ardal chi.



Bydd eu manylion ar eich bil trydan neu gallwch chi ddod o hyd iddynt yn:
www.energynetworks.org/info/faqs/who-is-my-network-operator




Wedyn byddan nhw'n rhannu eich gwybodaeth chi gyda'ch cyflenwyr nwy a thrydan.



Os byddwch chi'n cael toriad pŵer, ffoniwch 105 o'ch ffôn am ddim.

2. Oes gennych chi fesurydd nwy neu drydan rhagdalau?





Os oes gennych chi fesurydd nwy neu drydan rhagdalau ac rydych yn poeni am fedru talu am gredyd, siaradwch â'ch cyflenwr.




Byddant yn dweud wrthyh sut y gallwch chi roi credyd ar eich mesurydd trwy:

- ofyn i rywun rydych chi'n nabod roi credyd ar y cerdyn i chi
- trefnu i gredyd ychwanegol gael ei roi ar eich mesurydd
- trefnu i gerdyn ychwanegu credyd sydd â chredyd wedi'i lwytho arno'n gael ei anfon atoch chi.



3. Os ydych yn derbyn biliau ar gyfer eich nwy neu drydan




Os ydych chi'n derbyn biliau ar gyfer eich nwy neu drydan ac rydych chi'n poeni am fedru talu nhw, siaradwch â'ch cyflenwr.




Byddan nhw'n siarad â chi am y pethau y gallwch chi wneud fel:

- newid y ffordd rydych chi'n talu eich biliau
- cael seibiant a pheidio â thalu eich biliau am ychydig o amser
- talu llai bob mis neu gael mwy o amser i dalu'r arian sydd arnoch chi i'r cyflenwr.






Mae'n bosib y byddan nhw'n gallu helpu chi gydag arian tuag at eich biliau hefyd.



Beth bynnag sy'n digwydd yn ystod yr argyfwng coronafeirws, ni fydd eich nwy a thrydan yn cael eu troi i ffwrdd.

4. Gwirio budd-daliadau




Dylech chi wneud yn siŵr eich bod chi'n cael yr holl fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt.




Mae budd-daliadau yn arian y mae'r Llywodraeth yn ei dalu i bobl na allan nhw weithio neu sydd ag anabledd i sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o arian i fyw arno.


Mae hyn yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw ym Mhrydain Fawr ond i gael mwy o wybodaeth ewch i:



- Cymru:
<https://llyw.cymru/coronafeirws>



- Lloegr:
www.gov.uk/coronavirus



- Yr Alban:
www.gov.scot/collections/coronaviruss-covid-19-guidance/

I wybod os ydych chi'n cael yr holl fudd-daliadau mae gennych hawl I'w derbyn:



- ffoniwch y **Gwasanaeth Cyngor ar Gartrefi Clyd a Chynnes** ar **0800 138 8218**




- ewch i wefan **Cyngor ar Bopeth** yn **www.citizensadvice.org.uk/cymraeg**

5. Cadw'n ddiogel ac yn gynnes yn eich cartref



Mae'n bwysig i gael y nwy, trydan a'r dŵr sydd ei angen i gadw'n gynnes, yn ddiogel ac yn iach yn eich cartref.




Trwy wneud newidiadau bach, gallwch chi arbed arian a gwneud gwahaniaeth mawr i'ch biliau.



Mae mwy o wybodaeth ar y wefan yma:
www.simpleenergyadvice.org.uk

6. Newid cyflenwr



Weithiau, gallwch chi arbed arian os ydych yn newid i gyflenwr ynni gwahanol.



Gall gwefannau cymharu prisiau ar-lein ddweud wrthyhych chi faint y gallech chi arbed.



Gwnewch yn siŵr bod y wefan rydych chi'n dewis yn dangos côd hyder Ofgem.



Mae'r cyflenwyr ynni i gyd yn brysur iawn gyda galwadau ffôn ar hyn o bryd. Mae'n gallu bod yn gyflymach o lawer os gallwch chi ddefnyddio eu gwefan i gysylltu â nhw os yw'n bosib.




Mae'r **Gwasanaeth Cyngor ar Gartrefi Clyd a Chynnes** yn cael ei redeg gan elusen o'r enw **Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni** sydd eisiau sicrhau y gall pawb fforddio byw mewn cartref sych a chynnes.



Gallwch chi gael mwy o wybodaeth ar eu gwefan yn:
www.nea.org.uk/advice/wash-advice/



Mae'r wybodaeth yn y llyfryn yma yn dod gan **Gweithredu Cenedlaethol ar Ynni**, Ebrill 2020.



Mae'r daflen yma ar gael yn y Ganolfan adnoddau mewn fformatau eraill:
www.smartenergyGB.org/cy



Mae'r gwaith celf yn cynnwys deunydd o Gasgliad DarllenHawdd Inspired Services ac ni all gael ei ddefnyddio unrhyw le arall heb gael caniatâd ysgrifenedig gan Inspired Services.

www.inspiredservices.org.uk/inspiredpics/